# Newyddion Bethlehem



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Tymor y Gwanwyn 2020

# Newid yn y drefn!




***Fel y llun uchod yr oedd ein tudalen flaen i fod i edrych y tro hwn. Bellach mae'r dudalen flaen wedi ei symud i fod yn dudalen 2. Bydd ambell drefniant ar gyfer y dyfodol angen dyddiad newydd hefyd, os yn wir y gellir eu cynnal o gwbl. Felly, rydyn ni'n cyhoeddi'r dyddiadau arfaethedig rhag ofn y daw pethau'n well yn fuan. Pan ddaw hi'n gyfnod mentro allan, gwiriwch y dyddiad a'r achlysur dan sylw!***

***Ond yn y rhifyn hwn mae yna gofnod o'r prysurdeb arferol a fu dros fisoedd y gaeaf. Er gwaetha'r caethiwed, mwynhewch ambell lun ac adroddiad!***

## Fel gwyddoch, rydyn ni mewn cyfnod lle bu'n rhaid newid cryn dipyn ar ein harferion a'n trefniadau. Dylai'r neges canlynol fod wedi'ch cyrraedd oddi wrth Rhodri, ein hysgrifennydd:

Annwyl Gyfeillion,

Yn unol a'r anogaeth a dderbyniwyd oddi wrth Undeb yr Annibynwyr, **ni chynhelir oedfaon ym Methlehem, Gwaelod-y-garth o hyn hyd ddiwedd mis Mawrth 2020.**
Golyga hyn y bydd yr Ysgol Sul ar gau , ac hefyd bydd cyfarfod olaf Drws Agored am y tymor yn cael ei ohirio.

Bydd y sefyllfa o Sul i Sul ym mis Ebrill a thu hwnt yn cael ei adolygu, yn ddibynnol ar ledaeniad tebygol yr afiechyd, yn unol ag unrhyw gyngor pellach a ddaw o du'r awdurdodau priodol.

Fe geisiwn gadw cyswllt wythnosol a chwi trwy e-bost, ac fe fydd rhwydd hynt i chi gysylltu a mi ar e-bost (rhodrigj@btinternet.com) neu ar y ffôn (029 2089 0039 / 07399 483871), os oes angen cymorth o unrhyw fath arnoch.

Rhowch wybod i mi os gwyddoch am unrhyw un sydd heb gyswllt e-bost, fel y gallaf sicrhau ffordd amgen i'r neges gyrraedd pawb o gyfeillion Bethlehem.

Hyd eithaf eich gallu, dilynwch y canllawiau hylendid a chadwch yn saff, yw'r cyngor.

Cofion,
Rhodri-Gwynn Jones

Ysgrifennydd, Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

# Newyddion Bethlehem



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Tymor y Gwanwyn 2020

## Geiriau Olaf Dewi





***Un tro bach arall! Eilir, Thomas a Branwen***



*(chwith)* ***Yr unawdydd ifanc dawnus, Thomas Bytheway, un o fyfyrwyr cwrs coleg Eilir, brodor o Langennech a chyn-ddisgybl o Ysgol Y Strade.*** *(dde)* ***Cyfansoddwr y gwaith, 'Geiriau Olaf Dewi', ac arweinydd ac ysgogydd yr holl antur, Eilir Owen Griffiths, yn cael ei wynt ato wedi'r perfformiad. Diolch o galon iddo am ei waith ac i bawb fu'n rhan o'r oedfa Gŵyl Ddewi a'r holl baratoadau ar gyfer y bore.***







*(chwith)* ***Garmon Tilsley, fu'n darllen Salm y Genedl ac yn ffotograffydd y llun o'i gyd-berfformwyr*** *(uchod)*



***Mae'r wên ar wyneb Peter yn dweud y cyfan!***

(Rhagor o luniau a hanes ar dudalen 9)

# Suliau drefnwyd hyd fis Mehefin 2020

**(ond sydd bellach yn rhan o'r cyfnod cyfyngiadau iechyd – chwiliwch am bob diweddariad ddaw oddi wrth ein hysgrifennydd)**

**Mawrth**

**22** Parchg Glyn Tudwal Jones *

**29** Parchg Robin Wyn Samuel *

**Ebrill**

**5** Parchg Lona Roberts *

**10** Gwener y Groglith *

Y Parchg Ddr R. Alun Evans

**12** Sul y Pasg, Delwyn Siôn *

**19** Dr. Hefin Jones

**26** Dan ofal y merched

*(**Cwis** ddiwedd y prynhawn)*

* Dyddiadau dylid ei gwirio yn bendant

**Mai**

**3** Parchg Tom Defis (Cymun)

**10** Delwyn Siôn

**17** Gwasanaeth Cymorth Cristnogol

**24** Geraint Rees

**31** Sulgwyn: Parchg Dafydd Owen

**Mehefin**

**7** Delwyn Siôn (Cymun)

**14** Parchg Robert Owen-Griffiths

**21** Parchg Ganon Aled Edwards

**28** Parchg Ddr Noel Davies

*(**Swper Haf** ddiwedd y prynhawn)*

## Neges Delwyn

## GOFID COVID!

Annwyl bawb, fel y'chi'n gwybod, erbyn hyn ry'm ni ym Methlehem; fel pawb arall ar hyd a lled y wlad, wedi gorfod rhoi'r gorau i gwrdd ar fore Sul, a hynny er lles ein cymdeithas ni, a'r gymdeithas ehangach. A dyna sy'n iawn. Ond, er bod dim cwrdd o fewn muriau'r capel, mae ein Cristnogaeth yn parhau, ac mae 'na bethau pwysig i ni wneud yn y dyddiau "dieithr" yma. Mae cadw mewn cysylltiad dal yn bosibl, yn wir yn holl bwysig, a ga' i erfyn ar y diaconiaid ardal i gadw mewn cysylltiad a'r aelodau sydd o fewn eu hardal, yn arbennig yr aelodau hyn neu fregus, neu sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Ond hefyd, mae 'na gyfrifoldeb ar bob yr un ohonom i ofalu am ein gilydd. Codwn y ffôn, e-bostiwn, wyneb gysylltwn (os mai dyna beth yw *'facetimo'* yn y Gymraeg) *'watsapiwn'* (hapus i dderbyn unrhyw gyfieithiadau eraill!!).

"Gwnewch y pethau bychain " oedd cri Dewi Sant a phlant ein hysgol Sul yn ddiweddar – dilynwn yr alwad. "Cerwch eich gilydd" oedd gorchymyn yr Iesu i`w ddisgyblion adeg y Pasg dwy fil o flynyddoedd yn ôl – dilynwn yr alwad honno hefyd y Pasg rhyfedd hwn.

Edrychwn ymlaen i gyd gyfarfod eto. Pryd? Pwy a ŵyr? Ond tan hynny cymerwch ofal a chadwch y ffydd.

***Delwyn Sion***

**Ydych chi wedi newid eich e-bost, rhif ffôn neu gyfeiriad yn weddol ddiweddar?**

**Beth am roi gwybod i'r Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**

**Ffôn:** 029 20 89 00 39

***e-bost:*** rhodrigj@btinternet.com

**Rydyn ni'n cydymdeimlo'n ddiffuant iawn â'r canlynol:**

- Shân Osborne, Yr Eglwys Newydd a Mari, Catrin a Carys. (Roedd mam Shân, Mrs Mari Jones, wedi symud i lawr at y teulu o Dywyn, Meirionnydd).
- Ann Passmore, wedi colli ei thad yng nghyfraith yn ardal Conwy, tad Ken a thaid Catrin a Geraint.
- John a Marian Ifans, Radur (John wedi colli ei frawd, Dai)
- Anna Townson, Radur, merch Marian Jones (wedi colli tad yng nghyfraith)

# UN NOS YN ÖZ URFA - blasu bwydydd Môr y Canoldir a Mesopotamia





## Codi £1700

Eleni eto, bu Alwyn ac Angharad Harding Jones yn gyfrifol am drefnu noson ryfeddol mewn bwyty i godi arian at y gronfa elusen leol, Canolfan Y Drindod. Y tro hwn, bwyd Twrcaidd oedd yr arlwy – dewis o dros 70 o fwydydd a thros ddeugain o aelodau'n awchu i flasu a chael cân gan y cogydd!
Gwnaed elw o £1700 i'r elusen, sef y ganolfan ger Ffordd Casnewydd sy'n cynnig help i ffoaduriaid. (Gyda llaw, mae "taith gerdded cestyll" Alwyn ac Angharad wedi ei gohirio tan fis Medi).



Yn ystod y noson cynhaliwyd arwerthiant o roddion amrywiol – gan gynnwys cynnig o waith cerddorol ar gyfer achlysur, amrywiol nwyddau gan gynnwys un o luniau Anthony Evans. Yr arwerthwr oedd Huw Llewelyn Davies – ond teg dweud mai camera direidus Rhodri Gwynn a phlanhigyn cefndir, nid haelioni'r prynwyr, fu'n gyfrifol am godi gwallt pen Huw!





## Y CWRDD MERCHED YN NANTGARW



Ar Fawrth 10ed aeth criw bach o'r merched i Grochendy Nantgarw i weld a chlywed am y datblygiadau diweddara yno. Cawsom sgwrs gan Dr. Eurwyn Wiliam, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Crochendy Nantgarw. Clywsom am hanes y diwydiant Porslen yno, lle cynhyrchwyd y porslen gorau a wnaethpwyd erioed ar un adeg ar ddechrau'r 19ganrif. William Billingsley o Derby yn wreiddiol, oedd y crefftwr lwyddodd i greu y fath porslen, gyda'r addurniadau lliwgar a chain, a dod a Nantgarw i sylw rhyngwladol. Ond byr fu arhosiad Billingsley yn Nantgarw a rhoddwyd y gorau i gynhyrchu'r porslen yn 1833 a chollwyd y rysáit arbennig. Ond yn 2018 ar ôl rhaglen ymchwil drylwyr a arweiniwyd gan Grochendy Nantgarw ail-ddarganfuwyd rysáit goll William Billingsley, ac mae Nantgarw unwaith eto yn cynhyrchu'r porslen chwedlonol. Hawlia rhai o ddarnau porslen cynharaf Nantgarw brisiau mawr iawn mewn arwerthiannau. Mae'n werth chwilio ar y We am hanes rhyfeddol y Crochendy www.nantgarw.org.uk Roedd yn dda iawn clywed fod crefftwyr ifainc yn gweithio yno o hyd i gynhyrchu gweithiau o'r porslen arbennig a hefyd grochenwaith mwy cyffredin, a'r cyfan ar werth yn Siop y Crochendy. Mae amryw o weithdai yn cael eu cynnal yno drwy'r flwyddyn a chroeso i rai dibrofiad ymuno. Dyfal barhau mae ymdrechion gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth i gadw drws yr Amgueddfa ar agor o ddydd Mercher i ddydd Sul bob wythnos ac yn cadw'r cof yn fyw am ddiwydiant a phorslen arbennig iawn.

***Eirlys Davies, Radur***

## Y CWRDD MERCHED – DANTEITHION MARIAN





*Bu cryn edrych ymlaen at ein cyfarfod o'r Cwrdd Merched ym mis Rhagfyr – **"Danteithion Nadoligaidd"** - dan ofal Marian Ifans. Daeth pump ar hugain o aelodau – a'u ffrindiau – i weld a chlywed Marian ac o godi tips gweini ar gyfer arlwyo'r Nadolig. Cawsom y sawrus a'r melys ganddi. Dechrau gyda'r 'wraps' twrci, brie a llugaeron ac yna crostini amrywiol. Ymlaen at y melys gyda'r pwdin bara menyn Pannettone a'r 'Pwdin Brenhinol Ceirios y Wern'!*

*Ar ôl i'r cyflwyniad ddod i ben ac wedi gwylio'r cyfan yn cael eu baratoi, roedd yn rhaid, wrth gwrs, cael blasu'r cynnyrch dros baned! Hyfryd iawn oedd barn pawb ac mae'n siŵr bo'r ryseitiau yma wedi cael eu gweini mewn sawl cartref yn yr ardal, dros yr ŵyl.*

*Diolch yn fawr, Marian, am brynhawn difyr, a blasus, iawn.*

***Ann Lewis***

## Y CWRDD MERCHED – HANESION ALLAN PICKARD



Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn, cawsom bleser o groesawu ein cyd aelod Y Parchg. Allan Pickard. Teitl sgwrs Allan oedd **'Pwy ydw i?'** Arweiniodd ni ar daith ddiddorol o'i fagwraeth ym Methesda i'w ddyddiau yng Ngholeg y Brifysgol Llanbedr Pont Steffan, i'r cyfnod presennol yng Nghaerdydd. Bu Allan yn gweinidogaethu mewn nifer o eglwysi yr Annibynwyr yn Ne Cymru cyn ac ar ôl gwasanaethu BBC Cymru am nifer o flynyddoedd.

Diddorol fu clywed am fagwraeth Allan ym Methesda, a gwnaeth i ni sylweddoli o'r newydd cymaint o gyfoeth diwylliannol oedd yn Nyffryn Ogwen. Cawsom ein hatgoffa o'r enwogion a fagwyd yn yr ardal. Llenorion a beirdd fel R. Williams Parry a Caradog Pritchard, hefyd J. O. Williams a Jennie Thomas, awduron Llyfr Mawr y Plant, John Ogwen, yr actor, a'r cerddorion modern, John Doyle o'r ddeuawd Iwcs a Doyle a Gruff Rhys un o aelodau'r Super Furry Animals.

Bu Allan yn hel atgofion am ei deulu a oedd yn hanu o'r De ac o'r Gogledd. Mae ei ymchwil am ei deulu yn y De yn parhau oherwydd y dybiaeth y gallai ei hen, hen fam-gu fod yn perthyn i Sara Jacob enwog o ardal Pencader, yn y 19 ganrif, a gafodd ei hadnabod fel y '*Fasting Girl*' gan y tybid ei bod yn llwyddo i fyw heb fwyta.

Enwyd nifer o bersonau a fu'n ddylanwad arbennig ar ei fywyd. Ond fu neb yn fwy pwysig yn ei fywyd nag Avril ei wraig am 50 mlynedd, a braf iawn oedd cael Avril yn ôl yn ein plith ar ôl cyfnod o salwch.

***Eirlys Davies, Radur***

# Y CWRDD MERCHED YN ELDORADO



***Eldorado*** - Dyna oedd testun y Parch Alun Evans pan ddaeth i siarad â'r merched yn eu cyfarfod ar yr 11eg o Chwefror. Ond yn hytrach na sôn am antur i wlad gyfoethog yn llawn cyfleoedd fe glywsom mai'r rheswm fod yr enw Eldorado yn gofiadwy oedd am iddo gael swydd pan oedd yn 11 oed yn gwerthu hufen iâ o'r un enw yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau yn 1949!

Dyna ddechrau cysylltiad hir iawn Alun â'r Eisteddfod o werthu hufen iâ yn grwt ifanc i gystadlu fel unigolyn, canu gyda Phedwarawd y Wenallt, cynhyrchu drama ac yna ymlaen i fod yn arweinydd llwyfan, yn Gadeirydd Cyngor yr Eisteddfod, yn Llywydd y Llys a chael yr anrhydedd o'i ddewis yn Gymrawd yn Eisteddfod yr Wyddgrug yn 2007.

Beth oedd yn ein rhyfeddu ni i gyd oedd pa mor fyw oedd ei gof o bob un Eisteddfod Genedlaethol o 1949 yn Nolgellau hyd at 2019 yn Llanrwst. Roedd yn gallu enwi dyddiad a lleoliad pob Eisteddfod a rhoi pwt bach o wybodaeth ddiddorol am bob un. Fel y dwedodd ei hun, fe ruthrodd drwy 70 mlynedd o Eisteddfota yn gynt na thrên HS2 y dyfodol a gafodd sylw yn y Wasg y diwrnod hwnnw!

Diolch Alun am ddod i'n diddanu eto eleni ac am roi'r cyfle i ni hel ein hatgofion ein hunain am gyfnodau da yn Eisteddfodau'r gorffennol. Mae'n siŵr ein bod ni i gyd nawr yn edrych mlaen at Eldorado'r Cymry yn Nhregaron ym mis Awst eleni!

***Carol Davies***

# COFIO'N ÔL I'R NADOLIG



Dyma'r cast cyflawn fu'n cyflwyno "Nadolig yn ein Byd Bregus" – mae lluniau rhai o'r golygfeydd unigol ar y dudalen nesaf.

# 'Nadolig yn ein Byd Bregus'





*Mae'r cyflwyniad Nadolig mor bell yn ôl – ond ei neges yr un mor amserol. Eleni, plethwyd thema ein byd bregus i'r stori – gan gynnwys ymyrraeth "protestwyr" ar gychwyn y gweithgareddau.*



*Prin bod angen rhoi capsiwn i nodi pwy ydy'r bugeiliaid, yr angylion, y doethion a Mair a Joseph. Dyma nhw yn eu gogoniant. Diolch i Heulwen ac athrawon yr Ysgol Sul am eu paratoi, fel arfer.*










*Mae posteri'r brotest i'w gweld o hyd yn y festri. (Fe fyddan nhw'n dal yno wedi i ni ail ddechrau cyfarfod!) Diolch i Anthony, yr arlunydd yn ein plith, am y gwaith celf.*

**Rhagor am y perfformiad Fore Gŵyl Ddewi**

# Geiriau Olaf Dewi





***(uchod ac ar y dde)* Tri llun cyn i'r cyfan gychwyn. Ymddiheuriadau i bawb nad oedd wedi cyrraedd neu oedd yn y festri pan gliciodd y camera, neu sydd tu ôl i biler! (A bonws i rai am fod mewn mwy nag un o'r uchod)**

***(isod)* Cofiwch yr enw – Thomas Bytheway – y tenor ifanc sydd a'i fryd ar fynd nesaf i hyfforddi ym maes y sioeau cerdd. Fe'i clywsoch yma'n gyntaf!**





Rhaid cyfaddef i Dewi Ddyfrwr fod yn fyw iawn ym meddyliau pawb yn ystod diwedd Chwefror 2020. Cafodd yr ardal fwy na'i siâr o lawogydd. Dioddefodd ardal Nantgarw a Ffynnon Taf yn enbyd yn ystod y stormydd ac y mae rhai o'n haelodau wedi cael difrod i'w tai oherwydd y llifogydd.
Yn ystod cyfnod paratoi ar gyfer cyflwyno'r gwaith cerddorol eleni, sef "Geiriau Olaf Dewi", gan Eilir Owen Griffiths, gohiriwyd un oedfa foreol gan i Afon Taf orlifo gan achosi i'r ffordd o gyfeiriad Pont yr Ynys (cylchdro Radur/Gwaelod-y-garth) fod o dan ddŵr. Roedd hwnnw i fod yn fore ar gyfer un o'r ymarferion. Felly dyna un practis wedi mynd yn ffliwt!
Yr wythnos ganlynol, roedd ymarfer i'w gynnal ar y pnawn Sul a'r tro hwnnw, roedd Eilir ei hunan wedi ei rwystro rhag ein cyrraedd gan fod llifogydd rhyngddo ef â ni, ar ei daith yn ôl o Ogledd Lloegr. Ar fyr rybudd, camodd Delyth Evans i'r bwlch a chafwyd ymarfer wedi'r cyfan, rhag i'r ymarfer hwnnw hefyd fynd yn ffliwt. Roedd pawb yn wir ddiolchgar iddi am dderbyn yr her.
Roedd Mawrth y cyntaf yn dynesu a chafwyd un ymarfer ganol wythnos ac un terfynol ar fore'r nawddsant. Os mai "gwneud y pethau bychain" oedd cyngor Dewi – fe wnaeth Eilir fwy na hynny! Tybed oedd yna "facyn poced" wedi ei osod dan draed y cantorion i'w "codi" ar y bore? Teg honni bellach mai nid yn Llanddewibrefi mae'r unig wyrthiau'n digwydd.
Diolch yn arbennig i Eilir am roi ei ffydd yng nghôr capel Bethlehem. Diolch i Peter Wynn Thomas a Branwen Evans am eu gwaith ar yr organ a'r piano, diolch i blant yr Ysgol Sul am eu gwaith ac i Heulwen a'r athrawon am eu hyfforddi. A braf oedd cael cyfraniad Tom – Thomas Bytheway, o Langennech, ar ei flwyddyn gyntaf ar gwrs perfformio yn adran Eilir o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerdydd. Roedd ei rieni, Helen ac Adrian, yn y gynulleidfa. Bwriad Tom ydy mynd ymlaen i ddilyn gyrfa ym maes sioeau cerdd, er y bod ei fam, Helen, yn gwir fwynhau ei weld a'i glywed yn canu darnau clasurol ac wedi mwynhau'r cyflwyniad ym Methlehem. Ac yn llawn mor bwysig yn yr oedfa, diolch am gynulleidfa niferus a gwerthfawrogol. Roedd rhai o'r côr yn ofni ymlaen llaw fod pawb o'r aelodau eisoes yn y sedd fawr yn canu! Diolch hefyd i bawb am yr orig yn y festri dros ddishgled o de neu goffi, gyda'r pice a'r bara brith.

# Dwy Briodas Aur





Llongyfarchiadau i'r ddau gwpwl o'n plith sydd wedi dathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. ***(Chwith)*** Avril ac Allan Pickard, Llandaf a ***(dde)*** Glenys ac Anthony Evans, Yr Eglwys Newydd.



Roedd bedydd Gruffydd Osian Rhys Allen, mab Lowri a Nicholas, yn haeddu dau lun! Un o'r bedydd ei hunan ***(chwith)*** a'r llall ***(isod)*** o'r pedair cenhedlaeth oedd yn yr oedfa. Prin bod angen i ni nodi mai'r fytholwyrdd Rhiain Phillips, Radur, sydd ar un pen i'r gadwyn deuluol. Fe gafodd Lowri ei hunan ei bedyddio ym Methlehem yn nyddiau'r diweddar Barchedig T. J. Davies.



## Dyma'r dyddiadau oeddech chi fod i'w cadw mewn cof!

Bu'r Pwyllgor Cristnogaeth Ymarferol yn brysur yn darparu nifer o ddigwyddiadau i godi arian i'n helusen leol, **Canolfan y Drindod, Caerdydd**. Rhowch nhw mewn pensel ysgafn yn eich dyddiaduron – gan gofio y gall popeth newid:-

Sul Ebrill 26ain 2020 – **Cwis**
Sul Mehefin 28ain 2020 – **Swper Haf**
Sul Hydref 11eg 2020 – **"Digwyddiad"**
Sul Tachwedd 29ain 2020 – **"Bec-off" Bethlehem**

## Bore'r Nadolig a'r Plygain



Os oeddech chi yno, cyn eich cinio, yna rydych chi yma – o bosib!



*Diolch eleni eto i'r partïon ddaeth i gymryd rhan yn y Plygain ac i Peter Wynn Thomas (chwith) am drefnu'r cyfan.*







# Bêc-off Bethlehem














Oedd, roedd yr achlysur yn un cystadleuol – ond clên! Does dim ond angen i chi sylwi ar y canolbwyntio rownd y byrddau wrth i'r timau baratoi'r addurniadau.
Diolch i bawb fu'n brysur yn coginio ymlaen llaw – a llongyfarchiadau i **Glyn**, y llinellwr coll cadeiriol, *(chwith)* ac i **Alun** *(dde)* am ei slogan etholiadol coronog.







# Naw llith a charol







Dyma'r rhai fu'n cyfrannu i'r oedfa Naw Llith a Charol. Diolch i Delyth am drefnu ac yn arbennig i CF1 (dan arweiniad Eilir) am ymuno gyda ni yn yr addoliad.









# Eco Gapel

*"Geiriau gwag ac addewidion sy'n rhoi'r argraff bod digon eisoes yn cael ei wneud."*
Brawddeg o'r araith gan Greta Thunberg, y ferch ysgol ifanc, ryfeddol, o Sweden, yn ystod Fforwm Economaidd y Byd (World Economic Forum) yn Davos, Y Swistir, ym mis Ionawr eleni.
"*Dywedwch nad oes 'na le i ni blant bryderu. Dywedwch "gadewch hyn i ni, fe wnawn ni ddelio a hyn. Rhown addewid na wnawn eich gadael i lawr. Peidiwch a bod mor besimistaidd."*
Lle saif mynychwyr Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth ar yr argyfwng newid hinsawdd tybed?
Ydym ni ymysg y cyhuddedig "besimistiaid"?
Cawsom ein hatgoffa gan gyflwyniad Nadolig y plant (ac ambell i oedolyn) yma ym Methlehem ym mis Rhagfyr 2019 faint o'r gloch ydi hi ar ein byd bach ni.
"*Nadolig yn ein Byd Bregus*" a ddewisodd Heulwen (Jones), yr awdur, ei roi ar yr wyneb-ddalen, ac, fel y cofiwch, bu cryn stŵr wrth i'r cyflwyniad gael ei amharu gan lu o brotestwyr gyda'i placardiau yn galw am fod yn llawer mwy effro i'r hyn sy'n ddigwydd i'n planed gan ein difaterwch ni, a'r hyn y gallwn ei wneud fel unigolion a chymdeithas i leddfu peth ar allyriadau a'n defnydd o blastig, ein dull o deithio a'r gwastraff a gynhyrchir yn ein bywydau'n ddyddiol.
Mae'r placardiau yn y Festri o hyd, yn ein hatgoffa pob tro yr awn yno, nad am un Sul yn unig yn ystod y flwyddyn y dylem ddangos pryder am ein planed.
"*Beth am i ni, yn ein heglwysi, addunedu ar ddechrau blwyddyn newydd i wneud o leiaf un peth arloesol eleni!*" oedd her Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr yn ei neges "blwyddyn newydd" i'r aelodaeth.
Wel, ydi bod yn "***eco-gapel***" yn apelio tybed?
Tynnwyd sylw gan y Parchedig Allan Pickard at gynllun cydnabod (a gwobrwyo), yng Nghymru a Lloegr, dan ofal *A Rocha UK*, sy'n galluogi capeli i fesur sut y maent yn parchu a gwarchod y cread.
Y cam cyntaf yw gwneud arolwg o'r sefyllfa bresennol, dan bum pennawd fel a ganlyn:-

- Addoli ac addysgu o fewn y capel
- Rheolaeth adeiladau'r capel
- Rheolaeth tir y capel
- Ymwneud a'r gymuned yn lleol a thu hwnt
- Ffordd o fyw'r aelodau

Fydd dim modd i ni roi tic ymhob bocs o'r arolwg – gall statws "gwarchodaeth" y capel fod yn llyffethair i ambell i beth, ond mae 'na gamau ymarferol sydd eisoes (a/neu) y gellid eu dilyn i gyrchu tua'r nod, megis sicrhau cyflenwad ynni gwyrdd, defnyddio bylbiau ynni isel, defnyddio cynnyrch "Masnach Deg", rhannu car gyda chydnabod i ddod i'r oedfa.
Mae 'na le i ni gyd, o'r ieuengaf hyd at yr hynaf, i ymateb i'r her yma, a pha well lle i ddechrau nag wrth ein traed! Beth am roi tro arni er sicrhau na fydd y protestwyr yn ôl gyda'u placardiau'r Nadolig nesaf!

***RhGJ***

## Rydyn ni'n cyd-lawenhau gyda'r canlynol:

- Steffan Llywelyn, Yr Eglwys Newydd, ar ennill gradd Doethur mewn Bio Cemeg o Brifysgol Birmingham.
- Huw Llywelyn Davies, Pentyrch, ar ei radd anrhydedd o Brifysgol Abertawe
- Eilir Owen Griffiths, Ffynnon Taf, ar dderbyn gwobr Syr Geraint Evans gan Gymdeithas Cerddorion Cymru, am ei gyfraniad arbennig i gerddoriaeth yng Nghymru.
- Joy ac Eifion Glyn, Pentyrch, ar enedigaeth ei hwyr, Jaco Emrys, mab i Lowri a Chris Warlaw - brawd i Pegi Alys a Clara Jên
- Shân Osborne, Yr Eglwys Newydd, ar ddod yn Nain am y pedwerydd tro - mab bach, Hari Tomos, i Catrin a'i gŵr, Tom Cleverly, ddechrau Mawrth.
- Gareth Jones – mab Stella a Pete Jones, Yr Eglwys Newydd, wedi dyweddïo â Llinos.

**Fel gwyddoch, oherwydd y 'Coronafeirws', mae dyddiad pob un o'r cyfarfodydd yn y rhaghysbysiadau yn dibynnu llawer ar yr amodau fydd mewn grym dros y misoedd nesaf!**

**Diolch i bawb gyfrannodd i'r rhifyn hwn.**

Os ydyn ni wedi anghofio rhywun neu rywbeth, rydyn ni'n ymddiheuro. Rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda am ddigwyddiadau Bethlehem rydych chi wedi bod yn rhan ohonyn nhw ac anfonwch unrhyw wybodaeth at: tycnau@aol.com (neu soniwch wrth Ifan yn y cwrdd, pan fyddwn yn ôl yno!)